

Teipoleg Masnachwyr Cryptoarian: Dadansoddi Masnachu Bitcoin gan ddefnyddio Patrymau Ymddygiad Manwl

Crynodeb

Mae masnachu'r Bitcoin yn dod yn fwyfwy poblogaidd, ond nid yw heb ei risg a'i ansicrwydd. Dim ond ychydig ydym ni'n ei wybod am bwy sydd ynghlwm a beth yw eu nodweddion masnachu. Rydym yn ymestyn ar Liu et al. (2022)

gan ddefnyddio algorithmau Peiriannau Fector Cymorth (SVM) dull-K a dan oruchwyliaeth i greu teipoleg Bitcoin sy'n atseinio dosbarthiad y masnachwr ecwiti.

Deallwn fod rhaniadau clir i'r farchnad Bitcoin sy'n dangos drwy batrymau ymddygiad masnachwyr. Ond, mae llai na 1% o gyfeiriadau sy'n gysylltiedig ag amllder masnachu uchel iawn, cysondeb a gweithgarwch gydol oes.

Mae'n dioddef hefyd o anghydbwysedd hylifedd sylweddol gyda mwy na 43% o fasnachwyr sy'n manteisio ar hylifedd a dim ond 0.014% o fasnachwyr sy'n ei ddarparu.

Mae rhai yn ymddwyn fel masnachwyr technegol ac yn masnachu'n afreolaidd, sy'n awgrymu y gallent fod yn wybodus.

Buddion

Fel y papur cyntaf yn astudio nodweddion masnachu Bitcoin, rydym yn ennill pum math o fasnachwyr: profwr, sylfaenol, technegol, masnachwr aml a rheolwr marchnadoedd. Mae'r cysyniadau cyfarwydd hyn yn helpu ymchwilwyr i ddysgu am hunaniaeth a nodweddion masnachwyr Bitcoin. Mae eu patrymau ymddygiad nodweddiadol yn ein galluogi ni i ddeall y cyflenwad a'r galw mewn masnachu Bitcoin a materion posibl fel hylifedd neu sychder eithafol.

Gallai'r masnachwyr technegol neu aml achosi pryderon rheoleiddio: mae'r cyntaf yn adnabyddus am fod yn fasnachwyr gwybodus a manteiswyr hylifedd; a gallai'r olaf, er mai eu bwriad yw darparu hylifedd, weithredu fel ysglyfaethwr yn y farchnad, yn defnyddio eu manteision o ran gwybodaeth a chyflymder.

Defnyddiau ychwanegol/camau nesaf

Gellid ymestyn ar y gwaith hwn drwy gloddio'r data waled a'u cysylltu â'r cyfeiriadau – byddai'n hynod addysgiadol, yn enwedig er mwyn adnabod ymddygiad afreolaidd ac amheus.

Yn y pendraw, pan wneir astudiaeth ar raddfa lawn, gallem sefydlu rhwydwaith teipoleg Bitcoin sy'n dangos sut all pob math o fasnachwr nodweddiadol drafod ac olrhain eu llifoedd arian. Byddai hyn yn mynd i'r afael â heriau cynyddol, megis lladrad ar-lein a gwyngalchu arian. Gellid cyflwyno argymhellion rheoleiddio mwy manwl gywir, megis gellid lansio ETF (cronfeydd cyfnewid wedi'u masnachu).

Grŵp y prosiect



Simba Chain a Grŵp Ymchwil Fintech, Prifysgol Caerdydd